***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3362

# Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

## RHAN 3

## Rheolaeth Ariannol a Rheoli Mewnol

**Cyfrifoldeb am reoli mewnol a rheolaeth ariannol**

**5.**—(1) Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys—

(a) trefniadau ar gyfer rheoli risg, a

(b) rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

(2) Rhaid i'r corff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol.

(3) Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad y cyfeirir ato ym mharagraff (2) gael eu hystyried—

(a) yn achos corff perthnasol mwy, gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfanrwydd neu gan bwyllgor, a

(b) yn achos corff perthnasol llai, gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfanrwydd.

(4) Ar ôl yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol.

(5) Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4) yn mynd gydag—

(a) unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi yn unol â rheoliad 8; neu

(b) unrhyw ddatganiad cyfrifyddu y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi yn unol â rheoliad 14.